Boniface 680–754

Apostol yr Almaen

Nodwedd o fywyd eglwys iach yw sêl genhadol. Erbyn diwedd y seithfed ganrif roedd Eglwys Loegr wedi cryfhau ac wedi ei strwythuro a'i gweinyddu'n effeithiol. O ganlyniad, dechreuodd weithio ymhlith llwythau paganaidd Ewrop. Daeth y weledigaeth i wneud hyn o'r mynachlogydd, oedd yn hyfforddi dynion a merched i genhadu.

Yn dilyn diwygiad Cristnogol yn y seithfed ganrif teimlai Cristnogion Lloegr faich dros eu cymdogion yn Ewrop, a chyn diwedd y ganrif lansiwyd ymgyrch efengylu ymhlith rhai o'r llwythau Ellmynig.

Cyrhaeddodd Cristnogaeth yr Almaen yn y bedwaredd ganrif ac er bod rhai llwythau ar lannau afonydd Rhein a'r Donwy wedi troi at Gristnogaeth Arminaidd ni chafodd Cristnogaeth ddylanwad mawr yno. Tua diwedd y chweched ganrif dechreuodd cenhadon o Eglwys Geltaidd Iwerddon fynd ar deithiau efengylu i'r Cyfandir. Y pwysicaf oedd Columban, (543–615) a aeth i Ffrainc, yr Eidal a'r Rheindir. Yn ddiweddarach aeth mynaich o Loegr i sefydlu'r Eglwys Almaenig. Wilfrid o Ripon oedd y cenhadwr cyntaf yno gan Eglwys Loegr. Ond yr oedd cyfraniad Boniface, mynach diymhongar o Loegr, yn allweddol. Trwy ei waith credodd miloedd a sefydlwyd eglwysi a mynachlogydd.

Ganwyd ef i rieni Cristnogol yn Crediton, Dyfnaint. Wynfrith oedd ei enw bedydd (rhoddwyd yr enw Boniface iddo yn ddiweddarach gan y Pab). Pan oedd yn ifanc aeth i fynachlog yn Exeter. Yr oedd yn fachgen dymunol ac yn ddisgybl disglair, a phan oedd yn bedair ar ddeg oed fe'i derbyniwyd fel cyflawn aelod o'r brodyr. Erbyn iddo gyrraedd dwy ar hugain oed teimlai ei fod wedi dysgu cymaint ag y gallai yn Exeter ac felly aeth i Nurslivig ger Caer-wynt (Winchester) i gael hyfforddiant pellach. Sylweddolwyd fod ganddo alluoedd anghyffredin ac fe'i hordeiniwyd yn ddiacon a phresbyter.

Yn 715, pan oedd yn 35 oed, dywedodd wrth ei abad ei fod yn teimlo galwad i wasanaethu Duw dramor. Wedi peth oedi, caniatawyd iddo fynd. Trefnwyd bod nifer fechan o gyfeillion yn ei hebrwng i orllewin Ffrisia. Gobeithiwyd y byddai maes o law yn gallu ymweld â dwyrain Ffrisia a'r hen Sacsoniaid yng ngogledd yr Almaen. Dim ond am bedwar mis y parhaodd yr ymgyrch oherwydd yr oedd paganiaeth ar gynnydd a'r eglwysi yn ardal Utrecht wedi eu dinistrio.

Yn Rhagfyr 718 aeth i Rufain er mwyn gofyn am gefnogaeth y Pab Gregori II i'w gynlluniau cenhadol. Comisiynwyd ef i weithio dros achos Crist mewn ardal fawr yn Ewrop. Rhoddwyd iddo'r enw Boniface ac fe'i hanfonwyd i Ffrisia.

Arhosodd Boniface am ddwy flynedd gyda Willibrord, lle y dysgodd Ffrangeg. Ymsefydlodd yn Amoneburg. Llwyddodd y gwaith ac adeiladwyd eglwysi gan ailsefydlu'r ffydd. Teithiodd drwy Hesse a Thuringia yn ystod y blynyddoedd dilynol gan roi trefn ar yr eglwysi oedd yn prysur dyfu.

Yn 732 fe'i gwnaed yn archesgob gan y Pab. Erbyn hynny roedd ei genhadaeth wedi ymestyn i'r gorllewin dros afon Rhein i Ffrainc.

Yn 754 aeth ar genhadaeth i Ffrisia ac yno fe'i lladdwyd ef a'i ddilynwyr ar lan afon Boorn gan dorf orffwyll. Claddwyd ei gorff yn Fulda. Trwy ei ymdrechion ef ailsefydlwyd yr eglwys yn yr Almaen a dyna pam y'i gelwir yn Apostol yr Almaen.